



Nehemeia

Mae llyfr Nehemeia yn parhau â storïau Esra ac yn mynd â hwy ymhellach. Roedd y bobl wedi dychwelyd i'r tir yn dilyn archddyfarniad y Brenin Cyrus o Persia yn 538 Cyn Crist y dylai pob carcharor dychwelyd adref. Mae penodau 1-7 yn adrodd hanes ailadeiladu'r waliau dan Nehemeia er gwaethaf gwrthwynebiad gan y bobl oedd yn byw yno. Mae canol y llyfr (7.73b-10.39) yn adrodd hanes seremoni adnewyddu'r cyfamod rhwng Duw a'i bobl ac yn dathlu'r gyfraith. Mae rhan olaf y llyfr yn adrodd hanes Nehemeia yn dychwelyd i Jwda fel llywodraethwr am yr eildro gan gynnwys rhai o'r diwygiadau a wnaeth.



Pa mor hir wnaiff o gymryd?

Amser darllen: 1 awr
Yn brin o amser? Darllenwch yn unig
1.1-2.10; 11.1-12.26;
12.44-13.31



Dosbarth

Hanes ac acheddiaeth



Dyfyniadau i ysbrydoli

Dywedais, "O Arglwydd Dduw y nefoedd, y Duw mawr ac ofnadwy, sy'n cadw cyfamod ac sy'n ffyddlon i'r rhai sy'n ei garu ac yn cadw ei orchmynion."

(Nehemeia 1.5)

Yna fe ddwedodd wrthynt, "Ewch, bwytewch ddanteithion ac yfych win melys a rhannwch â'r sawl sydd heb ddim, oherwydd mae heddiw yn ddydd sanctaidd i'n Harglwydd; felly, peidiwch â galaru, oherwydd llawenhau yn yr Arglwydd yn eich nerth."

(Nehemeia 8.10)

Gwrthodasant wrando, ac nid oeddent yn cofio dy ryfeddodau a wnaethost iddynt. Aethant yn ystyfnig a dewis arweinydd er mwyn dychwelyd i'w caethiwed yn yr Aifft. Ond yr wyt ti'n Dduw sy'n maddau yn raslon a thrugarog, araf i ddogio a llawn ffyddlondeb, ac ni wrthodaist hwy.

(Nehemeia 9.17)



Ynglŷn â'r Awdur

Mae traddodiad Iddewig yn dweud mai Esra ysgrifennodd I a II Chronicl, Esra a Nehemeia.

Mae archwiliadau mwy diweddar o'r llyfr, fodd bynnag, wedi dod i'r casgliad ei bod yn llawer mwy cymhleth na hynny. Mae'r pedwar llyfr (I a II Chronicl, Esra a Nehemeia) yn ymddangos fel pe baent wedi eu casglu at ei gilydd o amrywiaeth eang o ffynonellau. Os edrychwch yn ofalus wrth i chi ddarllen, efallai y gallwch sylwi ar ambell i asiad yn y testun.

Beth wyddom ni amdano?

Ychydig iawn a wyddom pa bobl wnaeth yn y diwedd dynnu'r holl linyddau at ei gilydd yn y pedwar llyfr yma.

Rydym yn gwybod ychydig am brif gymeriad y llyfr – Nehemeia. Ei enw yw'r fersiwn hir o'r enw Nahum, a'i ystyr yw Duw'n cysuro. Roedd wedi codi i sefyllfa ddylanwadol ym Mhersia fel gwas sifil ac wedi defnyddio'r sgiliau hyn er mwyn helpu i ailadeiladu ei Jerwsalem annwyl. Yn 2.6 fe wnaeth ymddangos gerbron y frenhines. Gan mai dim ond eunuchiaid oedd yn cael caniatâd i fod ym mhresenoldeb y frenhines, mae rhai yn tybio fod Nehemeia hefyd yn eunuch.



Ynglŷn â'r cyfnod

Roedd hwn yn gyfnod cythryblus yn hanes Jwda. Roedd y Brenin a bron pawb oedd â dylanwad yn y wlad wedi eu caethgludo i Fabilon rhwng 598 a 586 CC. Yn 538 dyfarnodd y Brenin Cyrus y gallai pawb fynd adref. Y broblem oedd eu bod wedi bod yn alltud ym Mabilon am tua 60 mlynedd – nid oedd y mwyafrif o'r bobl oedd yn 'dychwelyd' wedi byw yno erioed.

Beth oedd pobl yn ei deimlo?

Roedd yr her o ddychwelyd o alltudiaeth wedi gwneud hunaniaeth yn gwestiwn allweddol yn y cyfnod hwn. Beth oedd yn ei olygu i fod yn bobl Dduw a beth oedd ei angen arnynt i ailadeiladu er mwyn iddynt allu bod yn bobl Dduw unwaith eto?

Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma

II Chronicl, Esra, Haggai, Sechareia, Joel



Sut cafodd ei strwythuro?

- 1.1-7.73a Mae Nehemeia yn dychwelyd i Jerwsalem i ailadeiladu muriau'r ddinas (a wnaeth er gwaethaf gwrthwynebiad cryf)
- 7.73b-10.39 Darllenodd Esra'r gyfraith ac arwain y bobl i adnewyddu eu cyfamod â Duw
- 11.1-13.31 Dychwelodd Nehemeia i Jerwsalem am yr ail waith fel llywodraethwr a sefydlodd nifer o welliannau



Pa fath o Lyfr ydy o?

Llyfr hanes yw hwn ond ei fod yn disgyn i'r categori y gallech ei alw'n hanes diwinyddol – hanes gyda phwrpas. Nid yw'n adrodd hanes digwyddiadau dim ond er mwyn i chi wybod

beth ddigwyddodd ond er mwyn i chi ddeall pam eu bod wedi digwydd. Mae llawer o lyfrau hanesyddol y Beibl fel hyn.

Mae yna hefyd nifer fawr o achau.



Cadwch lygad am...

Un o'r themâu allweddol yn Nehemeia yw gweithredu cymunedol - arweiniodd Nehemeia ac Esra y bobl yn ôl i berthynas â Duw ond hefyd eu hannog i weithio gyda'i gilydd er lles y ddinas. Edrychwch am bwysigrwydd cymuned drwy'r llyfr.

Yn yr un ffordd ag yn Esra, mae'r cymal 'ffafr fy Nuw' yn digwydd fwy nag unwaith. Myfyriwch ar y defnydd o'r cymal hwn pan welwch y geiriau (maent yn dod yn ystod yr ychydig benodau cyntaf).

Mae gweddi yn bwysig iawn yn y llyfr hwn ac yn Esra. Sylwch ar y weddi pan fydd yn digwydd a sut mae Esra'n gweddio.



Beth allai hyn ei olygu i mi?

Mae Esra a Nehemeia yn ymdrin yn ymarferol gyda'r thema o adferiad ar ôl trychineb llwyr.

Myfyriwch wrth i chi ddarllen ar y thema o adferiad. Allwch chi ddysgu oddi wrthynt sut mae adferiad yn digwydd a beth sydd ei angen i helpu adferiad i ddigwydd?



Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Byddwch yn sylwi fod Nehemeia (swyddog uchel yn Llys Persia) wedi gorfod wynebu gwrthwynebiad anferth gan Sanbalat a phobl y wlad. Mae'n werth treulio peth amser yn trafod hyn. Ar yr wyneb mae'r achos yn ymddangos yn glir – roedd Nehemeia yn cyflawni ewyllys Duw ac roedd Sanbalat yn ceisio sefyll yn ei ffordd. Ar y llaw arall efallai ei bod yn werth meddwl am sut y byddai pobl y wlad yn teimlo a hwythau wedi byw yno tra bod pawb arall wedi mynd i'r gaethglud, dim ond i gael Nehemiah – nad oedd erioed wedi byw yno cyn iddo ddychwelyd – yn deud wrthyn nhw beth ddylent ei wneud.
- Mae Pennod 13 yn cyflwyno Nehemeia fel rhywun oedd yn teimlo'n angerddol am yr hyn roedd o'n gredu oedd yn iawn (mae'n taflu allan dodrefn Tobeia, yn brwydro yn erbyn llawer o bobl a hyd yn oed yn curo rhai ohonyn nhw ac yn tynnu eu gwallt allan). Oedd o'n iawn? Allwch chi/ ddylech chi amddiffyn y math yma o ymddygiad ar sail yr hyn rydych chi'n deimlo sy'n iawn? Meddylwch am Gristnogion heddiw, pa fath o ymddygiad ydych chi'n credu sy'n dderbyniol ar sail angerdd? Mewn bywyd go iawn? Ar gyfryngau cymdeithasol?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

Dod â'r Beibl yn fyw

B Cymdeithas
y Beibl